**Rhif: WG50860**

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ymestyn darpariaethau rhannu swydd ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau i rolau nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth

Mai 2025

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx ISBN Digidol **978-1-83625-753-0**

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ymestyn darpariaethau rhannu swydd ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau i rolau nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth.

## Camau i'w cymryd

Dogfen er gwybodaeth yn unig yw hon.

## Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill drwy wneud cais amdanynt.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: LGPolicy.correspondence@gov.wales

## Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y caiff y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o holl ddogfennau'r ymgynghoriad eu cyhoeddi a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Ymgynghoriad ar ymestyn darpariaethau rhannu swydd ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau i rolau nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth.

# Cynnwys

Cynnwys ........ 3
Cyflwyniad ........ 4
Crynodeb o'r ymatebion ........ 5
Y camau nesaf ........ 9

## Cyflwyniad

Roedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y Ddeddf) yn cynnwys darpariaeth i hwyluso trefniadau rhannu swydd mewn rolau sy'n rhan o'r weithrediaeth mewn prif gynghorau. Roedd y Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer ymestyn y trefniadau hyn i rolau nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth mewn prif gynghorau.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod opsiynau ar gyfer rhannu swydd yn ei gwneud yn bosibl i gynghorau unigol roi trefniadau ar waith i hybu amrywiaeth, i hybu mwy o gysylltiad â gwaith y weithrediaeth ac i sefydlu llwybrau dilyniant gyrfa ar gyfer aelodau etholedig

Mae adran 60 o Ddeddf 2021 yn darparu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i hwyluso newidiadau i ddeddfwriaeth er mwyn dileu'r rhwystrau i bartneriaid rhannu swydd ddal ystod o rolau nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth hefyd i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â'r mater hwn y mae rhaid i brif gynghorau roi sylw iddynt. Y rolau anweithredol perthnasol yw:

- cadeirydd cyngor
- is-gadeirydd cyngor
- aelod llywyddol o gyngor
- dirprwy aelod llywyddol o gyngor
- cadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor o gyngor
- is-gadeirydd neu ddirprwy gadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor o gyngor
- dirprwy faer mewn gweithrediaeth maer a chabinet

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud rheoliadau a chyhoeddi canllawiau i hwyluso ymestyn rhannu swydd i rolau nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth mewn prif gynghorau.

## Gwybodaeth am y broses ymgynghori

Gwahoddwyd safbwyntiau mewn ymgynghoriad tri mis ffurfiol rhwng 12 Gorffennaf 2024 a 4 Hydref 2024. Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar:

- y trefniadau presennol ar gyfer aelodau gweithrediaeth ac a oes materion wedi codi wrth gymhwyso'r trefniadau hyn y mae angen eu hystyried ymhellach; ac
- ymestyn y darpariaethau i rolau nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth, gan gynnwys nodi materion y bydd angen mynd i'r afael â hwy os dilynir y dull hwn.

Mae manylion yr ymgynghoriad ar gael yma.

## Gwybodaeth am yr ymatebion

Cyflwynwyd 20 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori. O'r rhain, cwblhawyd 14 ar-lein a phump drwy e-bost gydag un wedi'i gynnal drwy alwad ffôn. Roedd cymysgedd o ymatebion oddi wrth unigolion, Cynghorau a sefydliadau eraill a ariennir yn gyhoeddus.

Cyflwynwyd tri ymateb pellach ar ôl dyddiad cau'r ymgynghoriad. Er nad yw'r ymatebion hyn wedi'u cynnwys yn y prif grynodeb o'r ymatebion, nodwyd bod y pwyntiau a godwyd yn yr ymatebion ychwanegol hyn yn cyd-fynd yn fras â'r safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr yn ystod y cyfnod ymgynghori ac mae hyn yn cael ei ddangos ar ddiwedd y crynodeb.

## Crynodeb o’r ymatebion

Bwriedir i’r ddogfen hon fod yn grynodeb o’r ymatebion a gafwyd. Nid nod yr adroddiad yw cofnodi pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr, yn hytrach mae’n tynnu sylw at y negeseuon allweddol. Gofynnwyd chwe chwestiwn yn y ddogfen ymgynghori a nodir crynodeb o'r ymatebion isod.

Nid chafodd pob cwestiwn ei ateb gan yr holl ymatebwyr, a rhoddodd rhai ymateb cyffredinol i'r ymgynghoriad yn hytrach nag ateb cwestiynau penodol. Lle mae ymateb cyffredinol wedi cael ei ddarparu, rydym wedi cynnwys yr ymateb o dan y cwestiwn mwyaf priodol neu ddarparu crynodeb o'r pwyntiau a godwyd o dan gwestiwn chwech.

**Cwestiwn 1 Byddai gennym ddiddordeb mewn unrhyw sylwadau/safbwyntiau sydd gennych ar weithredu trefniadau rhannu swydd mewn rolau gweithrediaeth o fewn cynghorau yng Nghymru.**

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar rannu swydd mewn rolau gweithredol o fewn cynghorau Cymru yn dangos ystod o safbwyntiau. Mae rhai ymatebwyr yn pryderu am broblemau cynhyrchiant, oedi a gwrthdaro posibl, gan ddadlau y byddai rheoli rhannu swydd yn gymhleth ac yn llafurus. Maent yn amheugar ynghylch pa mor ymarferol ydyw i ddau berson rannu rôl yn effeithiol.

I'r gwrthwyneb, mae cefnogaeth gref o blaid rhannu swydd i ddenu ystod fwy amrywiol o gynghorwyr, yn enwedig menywod a grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r rhai sydd o blaid rhannu swydd yn tynnu sylw at fanteision rhannu swydd o ran hyrwyddo amrywiaeth rhywedd a gwneud rolau gwleidyddol yn fwy hygyrch, gan nodi enghreifftiau llwyddiannus mewn cyd-destunau eraill.

Mae rhai cynghorau eisoes wedi rhoi trefniadau rhannu swydd ar waith ar gyfer rolau gweithredol, ac mae cefnogaeth i'r egwyddor. Er hynny, codwyd heriau ymarferol megis yr angen am ganllawiau clir, dryswch posibl ynghylch rolau, a'r effaith ar y partneriaid rhannu swydd, gyda llawer o ymatebwyr yn cadarnhau y gellid ymdrin â'r materion hyn mewn canllawiau.

**Cwestiwn 2 A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig ar gyfer y trefniadau pleidleisio yn achos partneriaid rhannu swydd nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth ac y dylid nodi manylion y dull gweithredu mewn canllawiau?**

Daeth 14 o ymatebion i law i ran gyntaf y cwestiwn hwn gyda phum ymatebydd yn cytuno â'r trefniadau arfaethedig a saith ymatebydd yn anghytuno.

Roedd sylwadau gan y rhai sy'n cefnogi'r trefniadau yn cynnwys cydnabyddiaeth y byddai canllawiau manylach yn ddefnyddiol, yn enwedig mewn perthynas â statws y pleidleisiau lle mae'r rhai sy'n rhannu swydd yn aelodau o'r pwyllgor dan sylw ac i'r gwrthwyneb lle nad yw'r rhai sy'n rhannu swydd yn aelodau o'r pwyllgor dan sylw. Croesawodd y rhai a oedd yn cytuno â'r dull yr ymrwymiad i ddatblygu canllawiau i ddarparu eglurhad manylach, yn enwedig mewn perthynas â threfniadau pwyllgorau lled-farnwrol.

Roedd sylwadau a ddaeth i law oddi wrth y rhai a oedd yn anghytuno â'r trefniadau arfaethedig yn cwestiynu'r rhesymeg dros newid system sy'n gweithio'n dda ac a fyddai, yn eu barn nhw, yn ychwanegu at y costau i gynghorau. Roedd sylw hefyd fod ystyried y mater hwn yn wastraff amser ac yn fodd i'r rhai sy'n ei wneud droi'r dŵr i’w melin eu hunain.

**Os 'nac ydw', pa ateb arall yr ydych yn ei gynnig?**

Awgrymodd ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r dull arfaethedig fod y trefniadau yn parhau fel y maent heb unrhyw awgrymiadau amgen yn cael eu cynnig.

**A oes unrhyw faterion pellach yr hoffech gyflwyno sylwadau arnynt mewn perthynas â phleidleisio?**

Roedd un ymatebydd o'r farn y byddai'n bwysig egluro'r sefyllfa lle mae dau aelod yn rhannu swydd cadeirydd (neu is-gadeirydd) a'r ddau aelod hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor. Y ffocws ar gyfer eglurhad fyddai a fyddai gan y ddau aelod bleidlais yn y sefyllfaoedd hyn.

**Cwestiwn 3 A ydych yn cytuno na ddylai trefniadau rhannu swydd effeithio ar gydbwysedd gwleidyddol pwyllgorau o dan amgylchiadau arferol?**

Roedd saith o 11 o ymatebwyr yn cytuno na ddylai trefniadau rhannu swydd effeithio ar gydbwysedd gwleidyddol pwyllgorau.

Dywedodd un ymatebydd na ddylai'r trefniadau rhannu swydd arfaethedig effeithio ar gydbwysedd gwleidyddol pwyllgorau. Nododd mai anaml y byddai rhannu swydd ar

gyfer rolau nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth yn cynnwys aelodau o wahanol bleidiau, ond os bydd hyn yn codi, dylid mabwysiadu'r dull a nodir yng nghwestiwn 4.

**Cwestiwn 4 A ydych yn cytuno, yn yr achosion hynny lle mae rhannu swydd yn cynnwys partneriaid o wahanol bleidiau, y dylai'r holl bleidiau gytuno ar y dull o gyfrifo aelodaeth y pwyllgor?**

O'r 12 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd wyth yn cytuno, lle mae rhannu swydd yn cynnwys partneriaid o wahanol bleidiau, y dylai'r holl bleidiau gytuno ar y dull o gyfrifo aelodaeth y pwyllgor. Roedd pedwar o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn anghytuno.

Er bod un ymatebydd yn cytuno, awgrymodd hefyd y dylid rhoi blaenoriaeth i geisio sicrhau bod trefniadau rhannu swydd yn cynnwys partneriaid o'r un grŵp gwleidyddol.

**Cwestiwn 5 Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effeithiau y byddai'n newid arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**• beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi?**

**• sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?**

O'r 11 o ymatebwyr roedd saith yn cytuno ag egwyddor y cwestiwn ac nad ydynt yn rhag-weld unrhyw effaith. Gwnaeth rhai'r pwynt bod trefniadau cyfieithu yn bodoli eisoes mewn cynghorau ac felly na ddylai hyn gael effaith andwyol.

Mynegodd un ymatebydd bryder y gallai trefniadau rhannu swydd arwain at gostau cyfieithu uwch ar gyfer pwyllgorau lle mae'r swydd yn cael ei rhannu rhwng siaradwr Cymraeg a Saesneg lle mae un yn dewis siarad Cymraeg.

Er i un ymatebydd ddweud ei fod yn teimlo y byddai'n gam cadarnhaol ac y gallai ddarparu cyfleoedd i siaradwyr brodorol Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg.

**Cwestiwn 6 Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod amdanynt.**

Ymatebodd rhai unigolion mewn termau cyffredinol yn hytrach nag ateb cwestiynau penodol. Cyflwynodd yr ymatebion sylwadau ar faterion ehangach yn ogystal â'r cwestiynau a ofynnwyd, ac roeddent yn cynnwys y canlynol:

- Mae rhannu swydd yn gyffredinol yn gwneud rolau uwch yn fwy hygyrch, yn cefnogi'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu a chyflyrau iechyd hirdymor, ac yn cynnig gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

- Dylai adnoddau a chyfleoedd addysgol fod ar gael i fenywod (mewn fformatau hygyrch, e.e. deunyddiau mewn gwahanol ieithoedd) fel y gallant wneud penderfyniadau gwybodus am eu hymgysylltiad gwleidyddol.
- Bydd hwyluso rhannu swydd fel rhan o drefniadau gweithio hyblyg ar gyfer pob rôl, boed swyddi sy'n rhan o'r weithrediaeth neu swyddi nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth, yn cyfrannu at gynyddu amrywiaeth ac yn lleihau gwahaniaethu mewn gweithleoedd.  Mae o fudd i fenywod, tadau, pobl hŷn, a gweithwyr anabl drwy wella mynediad at gyflogaeth a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae canllawiau clir yn hanfodol i'w rhoi ar waith
- Mae angen mwy o gydnabyddiaeth ar Is-gadeiryddion a Dirprwy Lywyddion, gan eu bod yn aml yn dirprwyo dros Gadeiryddion. Dylai fod mwy o hyblygrwydd a chydnabyddiaeth ariannol bosibl i Is-gadeiryddion gefnogi cynllunio ar gyfer olyniaeth ac amrywiaeth, tra'n mynd i'r afael â phryderon ynghylch cydbwysedd gwleidyddol. Dylid cyfeirio'r pwynt hwn at y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i'w ystyried.
- Mae rhannu swydd mewn rolau nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth yn gymhleth, yn wahanol i rannu rolau sy'n rhan o'r weithrediaeth. Gellid rhannu portffolios Aelodau'r Cabinet yn hawdd rhwng dau Aelod, er hynny, ni fyddai rhannu'r gwaith o gadeirio cyfarfodydd mor syml.
- Pryderon am agweddau ymarferol rhannu swydd ar gyfer awdurdodau bach. Roedd amheuaeth yn benodol ynghylch yr awydd i rannu swydd ar gyfer rolau nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth.
- Pryder y gallai rhannu swydd ar gyfer Cadeiryddion pwyllgorau danseilio rolau Is-gadeiryddion os nad ydynt yn cael eu rheoli'n dda a'r angen i ystyried y pryderon hyn yn ofalus wrth greu rheoliadau a chanllawiau.
- Mae'n bwysig nad yw trefniadau rhannu swydd yn cael eu defnyddio fel ffordd o gynyddu lwfansau i gynghorwyr, yn enwedig cyllid ychwanegol i Is-gadeiryddion heb addasu cydnabyddiaeth ariannol Cadeiryddion.
- Mae rhannu swydd yn gam pellach ymlaen at greu system wleidyddol sy'n adlewyrchu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu'n well. Tynnu sylw at y ffaith bod menywod sy'n wynebu gwahaniaethu, cyfrifoldebau gofalu, neu anfanteision economaidd-gymdeithasol heb gael eu cynrychioli'n ddigonol mewn llywodraeth leol ac arweinyddiaeth wleidyddol.
- Mae rhannu swydd yn cynnig hyblygrwydd i annog mwy o unigolion i ymgymryd â'r rolau hyn, gan wella cynrychiolaeth. Roedd cefnogaeth i ymestyn rhannu swydd i rolau nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth mewn prif gynghorau, ond dywedwyd bod canllawiau clir, rhannu arferion gorau, ac ymwybyddiaeth yn gallu hyrwyddo mabwysiadu ehangach a gwella cynrychiolaeth wleidyddol.

Sylwadau a ddaeth i law ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben

Yn ogystal, daeth tri ymateb i law ar ôl y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad. Roedd yr ymatebion hyn yn adlewyrchu llawer o'r safbwyntiau a nodwyd yn yr ymatebion a ddaeth i law yn ystod y ffenestr ymgynghori. Er i lawer o'r un materion gael eu codi, codwyd rhai pwyntiau ychwanegol at y rhai a ddaeth i law yn ystod y ffenestr ymgynghori. Crynhoir y rhain isod.

- Pryderon y gallai mandadu pleidlais fwrw yn erbyn cynnig gan gadeiryddion pwyllgorau sy'n rhannu swydd mewn pwyllgorau lled-farnwrol fod â

goblygiadau sylweddol ond roedd yn cytuno â'r dull gweithredu os byddai canllawiau pellach yn mynd i'r afael â'r pryder hwn.

- Dylai trefniadau pleidleisio ar gyfer 'partneriaid sy'n rhannu swydd nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth' ystyried aelodaeth pwyllgor yn gyntaf. Dylai cadeiryddion neu is-gadeiryddion sy'n rhannu swydd fod yn aelodau o'r pwyllgor perthnasol er mwyn sicrhau dealltwriaeth gref o waith y pwyllgor a chysondeb mewn presenoldeb. Mae arweinyddiaeth effeithiol yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddau aelod sy'n rhannu swydd y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd fod yn rhan o'r pwyllgor perthnasol, gan sicrhau eu bod yn gyfarwydd â gwaith y pwyllgor ac yn gyson yn eu cyfranogiad. Byddai pleidleisio yn cael ei symleiddio, gyda'r ddau aelod yn cael pleidlais, ond y bleidlais fwrw yn mynd i'r Cadeirydd dros dro. Nid yw'r trefniant hwn yn lleihau nifer y cyfarfodydd ar gyfer Cynghorwyr ond yn cydbwyso'r angen i ddeall y rôl â'r gofynion a roddir arni.
- Pwysigrwydd cadw'r trefniadau yn syml, gyda Chadeirydd ar y diwrnod a'r bleidlais fwrw. Awgrymwyd hefyd y gallai cadeiryddion sy'n rhannu swydd bleidleisio yn erbyn cynnig godi materion a chroesawyd trefniadau a chanllawiau pleidleisio clir.
- Pryder am gydbwysedd gwleidyddol os yw partneriaid rhannu swydd yn dod o bleidiau gwleidyddol gwahanol a'r angen i hyn gael ei reoli'n ofalus.
- Yr angen i gydnabod bod deddfwriaeth benodol ynghylch dyrannu Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu y gallai ymestyn y trefniadau i rannu rhwng grwpiau gwleidyddol effeithio arnynt.

## Y camau nesaf

- Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ynghyd â gweithgareddau ymgysylltu eraill yn hysbysu Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai am ymestyn trefniadau rhannu swydd.